# Prif Raglen ILS Lefel Mynediad



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn rhoi'r cyfle i unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wella eu sgiliau, i'w helpu i fyw bywyd annibynnol yn y gymuned. Mae wedi'i gynllunio i helpu i feithrin hyder mewn bywyd dydd i ddydd ac i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... ydych eisiau gwella sgiliau rhifedd, llythrennedd a byw'n annibynnol

... oes gennych ddiddordeb mewn dysgu am goginio, hamdden a chrefftau

... ydych eisiau profiad o fywyd coleg a fydd yn eich paratoi ar gyfer byw'n annibynnol a byd gwaith.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Yn ogystal â dysgu amrywiaeth eang o sgiliau byw'n annibynnol, bydd dysgwyr yn dilyn

rhaglen sy'n rhoi sylw i'r Pedair Colofn Ddysgu, sy'n ymdrin ag Iechyd a Llesiant, Cyflogadwyedd, Byw'n Annibynnol a Chyfranogiad Cymunedol. Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio ar sail dull sy'n canolbwyntio ar y person, i ddiwallu anghenion unigol.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn. Bydd dysgwyr yn cael asesiad man cychwyn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, gall dysgwyr symud ymlaen at gymwysterau cyn-alwedigaethol a/neu gyrsiau hyfforddiant/cyflogaeth gefnogol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Drwy gydol cyfnod y cwrs, bydd pob dysgwr yn cael Tiwtor Personol ac yn cael cymorth tiwtoraidd ddwywaith yr wythnos. Mae staff yn gweithio'n agos gyda dysgwyr i annog a datblygu hyder, hunan-barch a sgiliau eraill sy'n eu helpu i ddod yn fwy annibynnol.